Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn 2019

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn yn Neuadd Egryn ddydd Sadwrn 16eg o Chwefror. Y beirniaid eleni oedd: Cerdd, Cerdd Dant ac Alaw Werin - Robat Arwyn, Rhuthun a Llefaru a Llenyddiaeth agored - Mererid Hopwood, Caerfyrddin. Tudur Jones, Tywyn oedd yn cyfeilio yn ôl yr arfer, a'r arweinyddion oedd Janet Pugh, Eurgain Owen ac Edward Jones. Diolch iddynt oll am eu gwaith. Roedd yn braf croesawu Siwan Mair Jones, Aberhosan yn ôl atom i Lanegryn fel Llywydd yr Eisteddfod eleni a chafwyd atgofion melys o'i hamser yn tyfu i fyny ac yn paratoi a chystadlu yma yn Llanegryn.

Cafwyd gwaith celf a llenyddiaeth i'w arddangos yn y neuadd gan Ysgol Craig y Deryn ac Ysgol Uwchradd Tywyn, ac roedd y gwaith yn cael ei gloriannu eleni gan Ruth Pugh, Anwen Williams, Sian Jarman a Mark Freeman. Diolch i'r ddwy ysgol am eu cefnogaeth yn yr adran gwaith llaw ac i Ysgol Craig y Deryn am eu cefnogaeth yn y cystadlaethau llwyfan.

Roedd safon cystadlu'r diwrnod yn uchel iawn a'r ddau feirniad yn canmol yn fawr, yn enwedig y cyngerdd a gafwyd yng nghyfarfod yr hwyr.

Roeddem yn falch hefyd o glywed gan Mererid Hopwood bod teilyngdod yng nghystadleuaeth y gadair, a braf oedd gweld Judith Morris o Benrhyn Coch yn cael ei chadeirio ac yn derbyn cadair fechan o dderw wedi ei gwneud gan Dylan Jones, Trefeddian. Diolch yn fawr iawn i Gwmni Huws Gray, Tywyn am noddi cystadleuaeth y Gadair ac i Gwmni Magnox am noddi cystadleuaeth y côr.

Canlyniadau Llwyfan -

Unawd Meithrin a Derbyn: Isla Jones, Llanegryn. Llefaru Meithrin a Derbyn: Isla Jones, Llanegryn. Unawd Bl 2 ac iau: Isaac Roberts, Tywyn. Llefaru Bl 2 ac iau: Gwilym Jones, Llanegryn. Unawd Bl 3 a 4: Malena Gwyn Aled, Parc. Llefaru Bl 3 a 4: Gwenlli Jones, Llanbrynmair. Unawd Bl 5 a 6: Lleucu Meleri, Trawsfynydd. Llefaru Bl 5 a 6: Deio Jones, Llanbrynmair. Unawd Alaw Werin Bl 6 ac iau: Lleucu Meleri, Trawsfynydd. Unawd Offeryn Cerdd Bl 9 ac iau: Leah Mererid, Pwllheli. Unawd Merched/Bechgyn Bl 7-9: Liwsi Roberts, Meifod. Llefaru Bl 7-9: Lois Medi, Llandre. Unawd Cerdd Dant Bl 7-9: Liwsi Roberts, Meifod. Unawd Alaw Werin Bl 7-9: Liwsi Roberts, Meifod. Unawd dan 25: Mared Jones, Dolgellau. Cystadleuaeth y Dysgwyr : Parti Tywyn. Unawd dros 60: Tecwyn Jones, Machynlleth. Sgen ti dalent?: Celyn Roberts, Porthmadog. Sioe Gerdd dan 25: Lois Hughes, Rhydymain. Tarian i'r cerddor mwyaf addawol dan 25: Mared Jones, Dolgellau. Can Werin: Celyn Roberts, Porthmadog. Unawd Gymraeg: Efan Williams, Lledrod. Llefaru Agored: Mared Jones, Dolgellau a Celyn Roberts, Porthmadog. Her Unawd: Efan Williams, Lledrod. Côr : Côr Bro Meirion

Canlyniadau Llenyddiaeth –

Meithrin : Eddie Thorpe, Ysgol Craig y Deryn. Derbyn: Nia Hobbs, Ysgol Craig y Deryn. Bl 1: Sam Thorpe, Ysgol Craig y Deryn. Bl 2 : Roxy Hughes, Ysgol Craig y Deryn. Bl 3 a 4: Sylvie Morgan, Ysgol Craig y Deryn. Bl 5 a 6: Elain Williams, Ysgol Craig y Deryn. Bl. 7, 8 a 9 : Heidi Owen, Ysgol Uwchradd Tywyn. Bl. 10 ac 11 : Erin Jones, Ysgol Uwchradd Tywyn. Tlws yr Ifanc: Gwen Owen, Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli.

Cyfieithu: Gwilym Hughes, Mynytho. Erthygl Papur Bro a Thlws Dail Dysynni: Gaenor Mai Jones, Caerdydd. Englyn: John Ffrancon Griffith, Abergele. Telyneg: Mary B. Morgan, Llanrhystud. Limrig: Lis Rowlands, Bodorgan.

Canlyniadau Celf -

Meithrin: Gwilym Evans, Ysgol Craig y Deryn. Derbyn: Isla Jones, Ysgol Craig y Deryn. Bl 1 a 2: Sian Cleaver a Morgan Maynard, Ysgol Craig y Deryn. Bl 3 a 4: Fin Collister ac Aneira Jones, Ysgol Craig y Deryn. Bl 5 a 6: Liam Watson, Ysgol Craig y Deryn. Bl. 7, 8 a 9 : Elsie Faragher, Ysgol Uwchradd Tywyn. Bl 10 a 11: Cain Pugh, Ysgol Uwchradd Tywyn.